Sul Y Beibl 2023

Cynllun gwers ar gyfer plant

Nehemeia 8.1-11 (Beibl.net)

Adnod allweddol:

A dyma'r bobl yn ateb, “Amen! Amen!” a chodi eu dwylo. Yna dyma nhw'n plygu'n isel i addoli'r ARGLWYDD, a'i hwynebau ar lawr. (Nehemeia 8.6 Beibl.net)

Pwynt dysgu:

Mae Duw bob amser yn deilwng o glod.

Gêm:

Chwaraewch gêm o ‘Mae Simon yn dweud' gan gynnwys 'Mae Simon yn dweud rhowch eich breichiau yn yr awyr’ a 'Mae Simon yn dweud gwaeddwch Amen! Amen!" Dylech gynnwys llawer o gyfarwyddiadau eraill, rhai ohonynt y dylai'r plant eu dilyn a rhai na ddylent.

Miloedd o flynyddoedd yn ôl, daeth grŵp mawr o blant ac oedolion ynghyd yn sgwâr y dref i wrando ar air Duw ac addoli Duw trwy godi eu breichiau yn yr awyr a gweiddi 'Amen, Amen!'

Mae'n wych ein bod ni'n gwybod amdano ac yn gallu gwneud yr un peth heddiw.

Gweddi:

Gweddïwch ym mha bynnag ffordd rydych yn arfer gwneud fel grŵp. Fe allech ddefnyddio’r weddi ganlynol:

Annwyl Iesu,

Diolch dy fod ti yn haeddu ein clod a’n cariad.

Diolch gwaeth pa mor hen ydyn ni, lle rydyn ni a phwy ydyn ni, gallwn ni addoli ti.

Sori ein bod ni weithiau yn anghofio pa mor wych wyt ti ac yn anghofio addoli ti.

Helpa ni i ddysgu o'r Beibl dy fod ti'n fawr ac yn deilwng o'n mawl.

Amen

Amser dysgu:

Darllenwch Nehemeia 8.1–4a a 5–6.

Efallai gofyn i bawb sefyll wrth ddarllen, fel y gwnaethon nhw yn y darn.

Eglurwch fod y bobl wedi byw i ffwrdd o'u cartrefi, bod y ddinas wedi cael ei ddinistrio a bod y bobl bellach wedi symud yn ôl.

Os yw'n briodol i'r plant, rhannwch ddelweddau o drefi modern a ddifrodwyd gan ryfel.

Mae'r bobl wedi gwneud llawer o waith trwsio ac wedi gofyn i'r arweinwyr ddarllen geiriau Duw iddyn nhw.

Esboniwch rhai o'r geiriau a ddefnyddir:

- Y seithfed mis fyddai mis Medi neu fis Hydref ac efallai y byddai'r tywydd wedi bod yn boeth ac yn sych.
- Mae Esra yn enw ar fachgen sy'n golygu 'help' neu 'helpwr' yn Hebraeg. Efallai bod y plant yn adnabod rhywun gyda'r un enw.
- Jerwsalem yw eu prifddinas, fel Caerdydd a oedd wedi cael ei difrodi a'i hatgyweirio.
- Mae offeiriad ac ysgolhaig yn berson pwysig sy'n arwain y bobl i addoli Duw ac yn un sydd wedi astudio Gair Duw er mwyn iddo allu eu harwain yn iawn.
- Mae Llyfr y Gyfraith yn cyfateb i'r Beibl i'r Iddewon. Doedd rhai o'r llyfrau rydyn ni'n eu hadnabod yn y Beibl heb ei ysgrifennu eto.

Trafodwch beth sy'n debyg yn eu bywydau nhw heddiw i'r daith trwy ofyn y cwestiynau canlynol:

Adnod 1 – Ydyn nhw wedi symud tŷ, neu wedi cael atgyweiriadau ac wedi gorfod setlo nôl mewn?

Adnod 2 – Fel plant, beth yw'r digwyddiad mwyaf maen nhw wedi bod iddo?

Adnod 4 – Gofynnwch a oedd ganddyn nhw ddarllenfa, llwyfan neu feicroffon yn eu heglwys neu gapel nhw.

Adnod 6 – Ar ôl darlleniad o'r Beibl, ydy eich eglwys chi yn dweud rhywbeth fel 'Hwn yw gair yr Arglwydd' yn rheolaidd?

Adnod 6 – Ar ôl darlleniad o'r Beibl, ydy eich eglwys chi'n dweud rhywbeth fel 'Clod i Dduw' yn rheolaidd?

Cymhwyso'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu i'n bywydau:

Helpwch y plant i weld bod y darn hwn yn bwysig iddynt ac yn cael ei gefnogi gan eiriau'r Testament Newydd.

Marc 10.13 – Gwahoddodd Iesu'r plant i fod gydag ef, yn yr un ffordd gwnaeth Esra.

Gallwn ddod i'r eglwys a gwahodd ein ffrindiau i ddod gyda ni.

Iago 1.25 – Rydym yn cael ein hannog i edrych i mewn i'r Beibl ac i wneud yr hyn y mae'n ei ddweud.

Gallwn ddarllen ein Beiblau ar ben ein hunain neu mewn grŵp mawr, ac yna gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud.

Marc 11.9 – Roedd pobl yn addoli Iesu wrth y fynedfa fuddugoliaethus, a gallwn ninnau wneud hefyd.

Gallwn ganu clodydd i Dduw a dweud wrtho ei fod yn wych.

Darllenwch yr adnodau, neu'r adnod allweddol unwaith eto.

Gweithgaredd:

Printiwch y taflenni gweithgaredd a ddarperir yn seiliedig ar oedran y plant.

Taflen lliwio (cyn ysgol – CA1)

Chwilio geiriau (CA1–2)

Cod i dorri (CA2)

Os nad yw'r gweithgareddau hyn yn llenwi'r amser, chwaraewch 'Mae Simon yn dweud' eto gan gynnwys cyfarwyddiadau newydd fel ‘casglwch y cyfan at ei gilydd, sefyll gyda ffrind, gweiddi 'Molwch yr ARGLWYDD!' neu 'Molwch y Duw mawr!'